

Foeldrygarn/Carn Menyn

Teithiau Byr

Hyd: 2 awr

Pellter: 2.5 milltir (4.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim

Cyfeirnod map: SN165331

Fe ddywedodd yr awdur a'r darlledwr Wynford Vaughan-Thomas fod brigadau caregog gwasgarog rhostiroedd y Preselau 'yn gallu cystadlu gyda rhai Dartmoor o ran eu siapiau trawiadol'. Ysgrifennodd: "Ym mhob man rydych chi'n teimlo presenoldeb yr adeiladwyr bedd megalithig, y rhyfelwyr Oes Haearn a bentyrrai'r cerrig ar gyfer y bryngaerau mawreddog a'r hen saint Celtaidd caredig ac anghofus." Yn Foeldrygarn mae'n hawdd teimlo'r 'presenoldeb' y mae'n ei ddisgrifio.

Mae Foeldrygarn ei hun wrth galon gwrthgloddiau bryngaer. Ond ei nodweddion mwyaf trawiadol yw'r tri phentwr anferth o gerrig carneddau - sy'n rhoi eu henw i'r copa, sy'n golygu 'foel (bryn) y tri charn'.

Ar uchder o 360m (1,190tr) uwchben lefel y môr, mae yna olygfeydd anhygoel o'r tri charn. Casglwyd a phentyrrwyd y cerrig niferus sy'n ffurfio'r nodwedd ar gopa'r bryn gan drigolion yr Oes Efydd yng ngogledd Sir Benfro, rhwng 4,000 a 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Fwy na thebyg yr adeiladwyd y claddfeydd fel cofgolofn, yn atgof hollbresennol o gyndeidiau pwysig i'r bobl a oedd yn byw ar y llethrau is.

Mae ffurfiau garw'r brigadau yn ganlyniad i effaith cyfnodau hir o rewi a dadlaith ar y graig. Mae Carn Menyn yn enghraifft berffaith o'r broses hir ac araf, ac mae Carnalw yn enghraifft berffaith arall.

Ond mae Carn Menyn yn ymfalchio yn y ffaith mai ei chraig dolerit yw'r garreg las enwog a ddefnyddiwyd i adeiladu cylch mewnol Côt y Cewri (Stonehenge), 280 km (175 milltir) i'r dwyrain o'r Preselau. Defnyddiwyd dros 60 o'r cerrig glas mawr ar gyfer y gwaith adeiladu - mae yna ddadlau mawr o hyd ynghylch sut y cyrhaeddodd y cerrig Gôt y Cewri.

Mae'r rhostir agored yn gyfoeth o fywyd gwyllt ac mae yna siawns dda y gwelwch chi fwncathod a chigfrain. Os ydych chi'n ffodus iawn, efallai y gwelwch chi gudyll bach, sef hebog bach gwydn, chwim ei adenydd ac aderyn ysglyfaethus lleiaf Prydain.

